West Wales **Care & Repair**
**Gofal a Thrwsio** Gorllewin Cymru

# ateb

Myfyrio ynghylch 2020

Myfyrio ynghylch 2020

## Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru | Yn gwella bywydau

Bwletin Myfyrio 4

Pobl hŷn ac agored i niwed oedd yn peri'r pryder mwyaf yn ystod y pandemig Covid-19. Mae Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru, sef un o'n his-gwmnïau, yn gweithio bob dydd gyda'r bobl hyn yn ein cymuned, gan roi cyngor iddynt yn aml ynghylch sut mae cael gafael ar gymorth neu fudd-daliadau, neu wneud addasiadau i'w cartrefi er mwyn sicrhau eu bod yn gallu aros yn annibynnol am gyfnod hirach. Ar y dechrau roedd pobl yn gofidio am adael ein tîm i mewn i'w cartrefi, ond yn dilyn sawl asesiad risg cafodd dull gweithio ei gyflwyno oedd yn rhoi hyder i'n cwsmeriaid.

Yn ystod y don gyntaf o Covid-19, roedd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn ymwneud yn uniongyrchol â sicrhau bod cymaint o welyau ag a oedd yn bosibl yn rhydd. Yna, yn ddiweddarach, chwaraeodd ran bwysig yn y gwaith o sicrhau bod pobl yn aros o fewn terfynau swigen eu cartref a'u bod yn cael gofal cefnogol gan ein partneriaid. Meddai Is-gadeirydd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru, Hugh Watchman:

"Drwy gydol holl drafferthion y llynedd, mae aelodau o dîm Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru wedi dod o hyd i ffordd o ddarparu eu gwasanaeth arferol o safon uchel i'n cwsmeriaid yn Sir Benfro a Cheredigion. Rydym wedi ymweld â chyfanswm o 327 o gwsmeriaid mewn modd diogel er mwyn rhoi cyngor a chymorth iddynt, ac rydym wedi gwneud 1398 o addasiadau i gartrefi cwsmeriaid. Mae lefelau bodlonrwydd ein cwsmeriaid wedi parhau'n uchel iawn drwy gydol y cyfnod anodd hwn, sydd unwaith eto yn amlygu'r gwahaniaeth y gall Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru ei wneud i fywydau pobl."



**327** o gwsmeriaid wedi cael **cyngor** a **chymorth** arbenigol

**1398** **o addasiadau** wedi'u gwneud i **gartrefi** cwsmeriaid

Helpu pobl hŷn i fyw'n **annibynnol** mewn cartrefi **hygyrch** sy'n gynnes ac yn ddiogel

Mae Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru bob amser wedi darparu gwasanaeth gwych i bobl hŷn ac agored i niwed yn ein cymunedau'n dawel bach, sydd wedi galluogi'r bobl hynny i fyw bywyd mwy annibynnol sy'n rhoi mwy o foddhad iddynt. Mae Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru wedi parhau'n bartner allweddol i Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Hywel Dda mewn ymdrechion i sicrhau bod pobl yn gallu byw'n annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl.

Nick Hampshire
**Prif Weithredwr**
**Grŵp ateb Cyfyngedig**

Mae Grŵp ateb yn cynnwys

**ateb** *better living solutions*
Landlord cymdeithasol cofrestredig sydd â 3,000 o gartrefi ac sy'n gweithredu yng ngorllewin Cymru.

**millbay** Welcome Home
Cwmni cyfyngedig dan berchnogaeth lwyr, sy'n rhoi derbyniadau rhoddion cymorth yn ôl i'w riant at ddibenion cymdeithasol.

West Wales **Care & Repair**
**Gofal a Thrwsio** Gorllewin Cymru
Asiantaeth gofal a thrwsio sy'n cynorthwyo pobl hŷn a mwy agored i niwed sydd naill ai'n berchen ar eu cartref eu hunain neu'n rhentu eu cartref, drwy roi cyngor iddynt am fudd-daliadau a gwneud addasiadau i'w cartref er mwyn lleihau'r amser na fyddant yno.

Grŵp ateb – yn creu atebion gwell o ran byw i bobl a chymunedau'r gorllewin.